ADRODDIAD I'R AWDURDOD TÂN AC ACHUB

DYDDIAD: 1af o Ragfyr 2008	**CYFEIRNOD:**

TESTUN: CYD ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG TÂN A'R GYFARWYDDWRAIG ADNODDAU A CHAFFAELIAD AR OFYNION Y GYLLIDEB AR GYFER 2009/10

CRYNODEB:

AMCANION		GOBLYGIADAU	
Cael ein cwsmeriaid i'n parchu ac ymddiried ynom	/	Rheoli Risg Weithredol	/
Mwy na Gwasanaeth Brys	/	Lleihau Risg yn y Gymuned	/
Achub bywydau a diogelu cymunedau	/	Hyfforddiant a Datblygu	/
Rheoli o fewn y gyllideb	/	Argyfyngau Sifil	/
Gwella Effeithlonrwydd	/	Cyllid a Chaffaeliad	/
Adnoddau i Flaenoriaethau	/	A.D	/
Adnoddau Eraill	/	TGCh	/
Rheoli Pobl	/	Gwasanaethau Corfforaethol	/
Cynllunio i Reoli'n Integredig	/	Trafnidiaeth	/
Gwaith Partneriaeth	/	Iechyd a Diogelwch	/
Pobl Effeithiol ac Awdurdodedig	/	Adeiladau	/
Cynaladwyedd a'r Amgylchedd	/	Iaith Gymraeg	/
Rheolaeth	/	Cyfreithiol	/

SYLWADAU/ARSYLWADAU:

Mae'r gyllideb yn effeithio ar bob rhan o waith yr Awdurdod. Mae angen i'r Aelodau i gael mynediad i adroddiad cyllideb ac atodion y Pwyllgor Adnoddau, ac mae copïau'n amgaeëdig.

Mae'n orfodol i'r Awdurdod, yn unol â gofynion y Gorchymyn Cynllun Cyfuno, i gyflwyno amcan o'i dreuliau net ar gyfer y flwyddyn ganlynol, i'w Awdurdodau Unedol cyfansoddol erbyn yr 31ain o Ragfyr bob blwyddyn, cyn penderfynu ar y gyllideb derfynol erbyn y 15fed o Ragfyr, cyn y flwyddyn ariannol berthynol.
Hefyd, gall wneud cais i'r Awdurdodau Cyfansoddol am gyfraniadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn, yn dilyn ymgynghoriad.

ARGYMHELLION:

Bod y Pwyllgor Adnoddau'n argymell bod y canlynol yn cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub:-

1) Ar gyfer 2009/10, bod gofynion net y gyllideb o £43,644,053 (+4.4%) yn cael ei gymeradwyo (Atodiad A) fel sail i'w gyflwyno i'r Awdurdodau Cyfansoddol.

2) Bod y Rhaglen Gyfalaf sy'n amgaeëdig fel Atodiad B yn cael ei chymeradwyo, gan arwain at y costau ariannu cyfalaf a ddangosir yn ychwanegol yn Atodiad A.

3) Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r rhaglen amnewid cerbydau Ddiwygiedig, sy'n amgaeëdig fel Atodiad D.

4) Tra tybiwyd y byddai mwyafrif y cerbydau'n a fydd yn cael eu prydlesu wedi eu hymgorffori yn y gyllideb, argymhellir bod y Gyfarwyddwraig Adnoddau a Chaffaeliad yn cael ei hawdurdodi i benderfynu ar y dull priodol o ariannu'r cerbydau (boed hynny trwy eu prydlesu ai peidio) ar adeg eu caffael.

5) I gymeradwyo, ar gyfer 2008/09, bod cyfanswm y cyfraniad sydd i'w dalu gan yr Awdurdodau Cyfansoddol yn cael ei ddiwygio tuag at i fyny gan £1,395,000 yn dilyn ymgynghoriad.

PAPURAU CEFNDIR A DDEFNYDDIWYD WRTH BARATOI'R ADRODDIAD HWN:

Papurau'r Datrysiad Dros Dro
Cyllideb Refeniw Cymeradwy 2008/2009
Datrysiadau Cyflog
Cynllun Lleihau Risg MAWWFRA 2007-10
Datganiad o Gyfrifon 2007/08
Adroddiad Cyllideb y Pwyllgor Adnoddau, 17eg o Dachwedd 2008

Awdur(on) yr Adroddiad a'u Swyddi	Richard Smith PRIF SWYDDOG TÂN Liz Aitken CYFARWYDDWRAIG ADNODDAU A CHAFFAELIAD
Rhif ffôn/Estyniadau	Est 4401 a 4404